Addysg gwerthoedd: arfarniad o ddarpariaeth addysg ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill

Chwefror 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL.
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

℗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **5**

Crynodeb o dystiolaeth o arolygiadau ysgol **6**

Hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol **8**

Gweledigaeth a gwerthoedd 8
Addysg Bersonol a Chymdeithasol 9
Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang 12
Arloesedd cwricwlwm 13
Cynlluniau gwobr 16
Codi ymwybyddiaeth am ddemocratiaeth 17
Cyfranogiad effeithiol 18
Cysylltiadau cymunedol 20

Casgliad **22**

Cyflwyniad

1 Fel rhan o'i chylch gorchwyl ar gyfer 2006-2007, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn arfarnu pa mor dda y mae ysgolion uwchradd yn hyrwyddo datblygiad synnwyr disgyblion o gyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill ('addysg gwerthoedd'). Mae dysgwyr yn dangos cyfrifoldeb cymdeithasol pan fyddant yn dangos ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau atyn nhw eu hunain, at eraill ac at y gymuned, ac yn dangos dealltwriaeth o'u rôl fel dinasyddion gweithgar mewn Cymru amrywiol.

2 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu darpariaeth ysgol uwchradd gyfredol ar gyfer hyrwyddo addysg gwerthoedd ac yn nodi nodweddion cyffredin o arfer dda. Defnyddir astudiaethau achos i egluro'r arfer dda hon.

3 Yn ystod yr arolwg, ymwelodd arolygwyr ag 13 ysgol uwchradd a gynhelir ac un ysgol arbennig ledled Cymru, a oedd yn cynrychioli ystod o ddarpariaeth drefol, wledig a chyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, ystyriodd arolygwyr dystiolaeth o naw awdurdod addysg lleol, fe wnaethant gynnal cyfweliadau ag asiantaethau gwirfoddol ac asiantaethau eraill, ac archwilio tystiolaeth o arolygiadau a gynhaliwyd o dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Cefndir

4 Mae'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd mawr sydd wedi digwydd yng Nghymru yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf, gan gynnwys dirywiad yn y niferoedd sy'n mynychu eglwysi a chapeli, chwalu bywyd cymunedol traddodiadol, encilio diwylliant ymostyngar a'r heriau moesegol sy'n deillio o dechnolegau newydd a globaleiddio, wedi arwain at ailasesu'r rôl y dylai ysgolion ei chael wrth hyrwyddo gwerthoedd craidd cadarnhaol. Y dull a ddefnyddiwyd gan ysgolion oedd addysgu disgyblion am werthoedd crefyddol a chymdeithasol. Mae ysgolion bellach yn hyrwyddo gallu disgyblion fwyfwy hefyd i fod yn foesol annibynnol ac i wneud penderfyniadau gwybodus gydag ymwybyddiaeth o ganlyniad y penderfyniadau hynny iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

5 Mae hyrwyddo gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill wedi bod yn flaenoriaeth gyson i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n thema drosfwaol mewn cyhoeddiadau polisi allweddol. Er nad oes dull Cymreig amlwg ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, mae yna nifer fawr o fentrau addysgol y mae 'gwerthoedd' yn ganolbwynt iddynt. Disgwylir bod gan ysgolion rôl bwysig wrth hyrwyddo'r gwerthoedd hyn mewn pobl ifanc trwy ystod ac ansawdd y profiadau y maent yn eu darparu a thrwy ymgysylltu'n weithredol â phobl ifanc trwy ymgynghori â nhw am yr addysg a gânt.

6 Mae 'Cymru Well'[1] yn pennu pwysigrwydd gwerthoedd craidd cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a hyrwyddo cymdeithas oddefgar lle caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi. Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu'[2] a 'Llwybrau Dysgu'[3] yn pwysleisio'r modd y gall addysg a dysgu helpu unigolion i wneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas. Mae hyrwyddo gwerthoedd sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn flaenoriaeth allweddol arall i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cyhoeddi'r strategaeth gysylltiedig ar gyfer gweithredu[4] yn 2006 yn amlinellu'r modd y bydd yr addysg hon yn cael ei ffurfio.

7 Mae 'Ymestyn Hawliau'[5] yn pennu 10 hawl ar gyfer pobl ifanc sydd hefyd yn ymdrin ag elfennau pwysig ar hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth fyd-eang;
- profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu doniau, ehangu gorwelion a hyrwyddo safbwyntiau cynhwysfawr gan gynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol; a'r

[1] www.cymruwell.com (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2000)
[2] Y Wlad sy'n Dysgu: Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes Gynhwysfawr tan 2010 yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001)
[3] Llwybrau Dysgu 14-19 Arweiniad II (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2006)
[4] Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang - Strategaeth ar gyfer Gweithredu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)
[5] Ymestyn Hawliau: Cymorth ar gyfer pobl 11-25 oed yng Nghymru: Cyfarwyddiadau a Chanllawiau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2002)

- hawl i bobl ymgynghori â chi, i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

8 Mae Adran 176 Deddf Addysg 2002, Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005 a sefydlu'r consortiwm cyfranogiad[6] i gyd yn adlewyrchu blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys ac ymgynghori â phobl ifanc mwy ar y gwasanaethau a gânt.

9 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisïau a mentrau eraill, yn enwedig y Cwricwlwm Cymreig a chynnal cynllun peilot o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, sy'n effeithio yn uniongyrchol ar y modd y caiff cyfrifoldeb cymdeithasol ei hyrwyddo gan ysgolion.

10 Mae llawer o elfennau ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol eisoes wedi'u sefydlu'n dda yn yr hyn a wna ysgolion i ddatblygu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn strwythuro'u dull o addysgu cyfrifoldeb cymdeithasol trwy'r fframwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a'r arweiniad sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'r fframwaith yn diffinio addysg bersonol a chymdeithasol fel 'popeth a wna ysgol i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae hyn yn cynnwys yr holl brofiadau a chyfleoedd dysgu a gynllunnir sy'n digwydd nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth ond hefyd mewn meysydd eraill o brofiad ysgol sy'n nodweddion o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol'.

[6] Corff strategaeth aml-asiantaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu gallu ac arfer mewn cyfranogiad

Prif ganfyddiadau

11 Mae gan yr ysgolion sydd fwyaf effeithiol yn hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol mewn pobl ifanc arweinwyr cryf sy'n rhoi synnwyr clir o gyfeiriad am y gwerthoedd y mae arnynt eisiau eu meithrin, ac athrawon sy'n gweithredu fel modelau rôl da ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn cydnabod bod cyfrifoldeb cymdeithasol disgyblion yn datblygu orau pan fydd yr hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei ategu gan werthoedd sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol.

12 Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ysgolion ddealltwriaeth glir o 'gyfrifoldeb cymdeithasol' na 'gwerthoedd addysg'. Nid yw ysgolion bob amser yn cynllunio dull ysgol gyfan o hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Ychydig iawn o athrawon sydd wedi cael hyfforddiant penodol mewn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, ac o ganlyniad, mae hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol yn amlwg yn aml yn cael ei gyfyngu i nifer fach o bynciau.

13 Mae gan staff o'r sector gwirfoddol a phartneriaid eraill yn aml brofiad eang o ddatblygu agweddau ar gyfrifoldeb cymdeithasol. Nid yw ysgolion yn gyffredinol yn gwneud digon o ddefnydd o'r arbenigedd hwn wrth ddatblygu gwerthoedd disgyblion, a dim ond mewn nifer fach o achosion y caiff y gwaith a wneir mewn ysgolion ei gydlynu'n effeithiol â'r gwaith hwnnw a wneir yn y gymuned ehangach.

14 Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o ddyfarniadau a chymwysterau sy'n canmol disgyblion am eu cyflawniad mewn addysg bersonol a chymdeithasol a rhaglenni eraill sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol.

15 Mae mwy a mwy o ysgolion yn adeiladu ar botensial datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel elfennau pwysig wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, er bod y rhain, at ei gilydd, yn parhau i fod yn feysydd eithaf gwan yn narpariaeth llawer o ysgolion.

16 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn effeithiol wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill trwy ei elfennau gorfodol. Mae craidd dysgu Llwybrau Dysgu 14-19 hefyd yn ffordd rymus o bosibl o hyrwyddo addysg gwerthoedd i bawb.

17 Mae presenoldeb da a gwella cyrhaeddiad ac ymddygiad yn arwyddion o ddatblygiad effeithiol cyfrifoldeb cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion digon mewn addysg bersonol a chymdeithasol na'u cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 gynnwys pob rhanddeiliad, gan gynnwys disgyblion, wrth roi ystyriaeth amlwg i'r gwerthoedd y dylai'r ysgol eu hyrwyddo;

A2 darparu hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth athrawon o'r modd y gellir datblygu a hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, parch a gwerthoedd trwy bob pwnc;

A3 adeiladu ar botensial addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, y Cwricwlwm Cymreig, Llwybrau Dysgu 14-19 a Bagloriaeth Cymru i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol;

A4 defnyddio ystod ehangach o gymwysterau a chynlluniau gwobrwyo i roi credydau i'r medrau y mae disgyblion yn eu dysgu mewn ABCh a chyrsiau eraill sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol; ac

A5 olrhain ac arfarnu cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol mewn ABCh a graddau eu cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau ac mewn prosiectau sy'n gwella'u dealltwriaeth o ddemocratiaeth.

Dylai awdurdodau lleol:

A6 feithrin cysylltiadau gwell rhwng ysgolion, gwasanaethau cymorth ieuenctid a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol; a

A7 rhoi cymorth parhaus i ysgolion gyflwyno ABCh ac elfennau eraill ar y cwricwlwm sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a chyfranogiad disgyblion.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A8 atgyfnherthu ei sefyllfa polisi ar ddatblygu cyfrifoldeb a gwerthoedd cymdeithasol mewn ysgolion; ac

A9 ystyried gwneud y fframwaith ABCh diwygiedig yn orfodol yn y chweched dosbarth.

Crynodeb o dystiolaeth o arolygiadau ysgol

18 Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr arfarnu'r canlynol:

1.11 A yw disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at eraill?

1.14 A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ei datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a'u datblygiad ehangach?

3.5 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion – gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?

19 Mae'r graffiau isod yn dangos y graddau a roddir am yr elfennau arolygu hyn ar gyfer y 37 ysgol uwchradd a arolygwyd yn 2005-2006.

1.11 A yw disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at eraill?

1.14 A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a'u datblygiad ehangach?

3.5 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion – gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?



20 Mae'r siartiau isod yn dangos bod ysgolion uwchradd yng Nghymru yn gyffredinol lwyddiannus mewn darparu addysg ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd unrhyw wendidau pwysig yn y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn eu hymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal ac wrth ddangos parch at amrywiaeth mewn cymdeithas. Mae ysgolion Cymraeg, ysgolion ffydd, ac ysgolion â dangosyddion amddifadedd isel i gyd yn nodweddiadol yn gwneud yn dda yn y meysydd hyn.

21 Mae'r 16 arolygiad o ysgolion arbennig ac UCDau yn 2005-2006 hefyd yn dangos darlun cadarnhaol iawn o gyflawniad a darpariaeth yn yr un meysydd allweddol.

1.11 A yw disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at eraill?

1.14 A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ei datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a'u datblygiad ehangach?

3.5 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion – gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?



22 Lle mae hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol yn dda, y nodweddion a grybwyllir amlaf yw:

- y datganiadau a ddeellir yn dda o werthoedd eglur y mae'r ysgol yn ceisio'u hyrwyddo ar draws ei holl weithgareddau, sy'n berthnasol ac yn briodol i gyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yr ysgol;
- ansawdd y berthynas rhwng staff a disgyblion;
- mentora effeithiol a chymorth cymheiriaid yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o dangyflawni neu ddadrithiad;
- polisïau a threfniadau a ddeellir yn dda ar waith i ymdrin â bwlio a phroblemau ymddygiad;
- lefel uchel y cyfranogiad mewn ystod berthnasol o weithgareddau; a
- darpariaeth ABCh ddatblygedig sy'n dathlu amrywiaeth.

Hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol

Gweledigaeth a gwerthoedd

23 Mae bron pob ysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig i sefydlu synnwyr clir o gyfeiriad ac ethos cadarnhaol wrth greu'r amodau cywir ar gyfer meithrin cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion lle mae gan ddisgyblion hunan-barch isel ac agweddau negyddol at ddysgu. Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod cyfrifoldeb cymdeithasol disgyblion a pharch at eraill yn datblygu orau pan fydd yr hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei ategu gan werthoedd sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae ysgolion hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y cyfleoedd y mae'n eu rhoi i'w disgyblion i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a bod pobl yn ymgynghori â hwy.

24 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac athrawon yn fodlon hyrwyddo gwerthoedd a dderbynnir yn gyffredin, fel goddefgarwch a pharch. Fodd bynnag, gallai fod llai o gytuno ynghylch sut i hyrwyddo gwerthoedd eraill y gellid eu gweld fel meysydd cydwybod bersonol. Mae rhai ysgolion wedi cynnwys ystod o randdeiliaid mewn trafodaeth eglur am y weledigaeth ar gyfer yr ysgol a'r gwerthoedd y dylai fod yn ceisio'u hyrwyddo. Mae staff yn deall y gwerthoedd cytûn hyn ac maent yn eu hyrwyddo ym mhob gweithgaredd ac yn treiddio i ddogfennau, cylchlythyrau a chynlluniau gwaith yr ysgol. Cyflawnwyd y synnwyr cryf hwn o weledigaeth a diben ar y cyd mewn ysgolion o wahanol fathau sy'n gwasanaethu cymunedau amrywiol. Caiff y gwerthoedd y mae'r ysgolion hyn yn eu hyrwyddo eu mynegi'n aml trwy gysylltiadau cymunedol proffil uchel ac maent wedi arwain at gyrhaeddiad gwell maes o law.

25 Mewn nifer o ysgolion â sylfaen grefyddol ('ysgolion ffydd'), mae gan yr ethos ffydd rôl bwysig mewn datblygu gwerthoedd a synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol ymhlith disgyblion. Mewn ysgolion eraill, gall addoli ar y cyd a gwasanaethau fod yn ffordd bwysig o hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, er bod hwn yn parhau yn faes gwan mewn llawer o ysgolion. Mae un ysgol yn defnyddio gwasanaethau i hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth o ddiwylliannau a chrefyddau eraill trwy raglen flynyddol a gynlluniwyd yn ofalus sy'n cysylltu'n glir y gwaith a wneir mewn ABCh ac addysg grefyddol. Yn yr ysgol hon, anogir disgyblion i fyfyrio ac archwilio'u teimladau eu hunain a chwalu rhwystrau sy'n gysylltiedig â rhyw, oedran, hil, diwylliant a ffydd.

26 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig fel ffordd gadarnhaol o hyrwyddo synnwyr ar y cyd o hunaniaeth gyda chyfres o werthoedd cysylltiedig, gan gynnwys mewn cymunedau sy'n amrywiol yn ddiwylliannol. Mae un ysgol sy'n gwasanaethu cymuned amlddiwylliannol drefol fawr yn hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth o grefyddau a diwylliannau eraill sy'n seiliedig ar gydnabod amrywiaeth, ond o fewn hunaniaeth genedlaethol Gymreig gyffredin, yn llwyddiannus.

27 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i athrawon arddangos agweddau ac ymddygiad da a gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol. Mewn un ysgol sy'n gwasanaethu ystâd drefol ddifreintiedig, mae uwch staff yn cyfarfod ac yn cyfarch disgyblion pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol. Mae'r un ysgol yn rhoi sylw gofalus i gynnal perthynas ystyriol a pharchus rhwng staff a disgyblion trwy gyfres o

reolau a ddeellir yn dda ar gyfer ymddygiad y mae staff yn ei chymhwyso yn gyson. Mewn ysgol arall, mae llawer o staff yn dod o'r un gymuned â'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol. Oherwydd hyn, mae ganddynt empathi mawr â disgyblion, ac maent yn parchu ei gilydd trwy falchder y maent yn ei rannu yn eu cymdogaeth a'u traddodiadau. Ar y llaw arall, mae ysgolion lle nad yw perthynas â'r gymuned, rhieni a gofalwyr wedi'i datblygu'n gryf, yn aml yn cael anhawster yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol.

Astudiaeth achos 1: yr 'Ystafell Barch'

Fe wnaeth disgyblion mewn ysgol sy'n gwasanaethu cymuned â lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol amlygu'r ffaith fod gan yr ysgol gyfleusterau a chyfleoedd da ar gyfer disgyblion a oedd yn arbennig o dda ac ar gyfer y rheiny nad oeddent yn cydymffurfio, ond dim byd ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion. Fe wnaethant arolwg o'r disgyblion a gwnaethant gais i'r tîm arweinyddiaeth am 'Ystafell Barch' ble gallent fynd i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ystafell a adnewyddwyd yn ddiweddar bellach yn lleoliad pwysig ar gyfer cynghori, datrys gwrthdaro, cyfryngdod cyfoedion neu ddim ond i ymlacio. Gellir archebu'r ystafell ar-lein ac mae'n hygyrch i bawb ac yn ffordd weledol bwysig o ddatblygu medrau rhyngbersonol. Mae'n gwneud datganiad am y modd y mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r medrau hyn.

28 Nid yw rhai ysgolion yn rhoi digon o sylw i drafod y weledigaeth a'r gwerthoedd y dylai'r ysgol eu hyrwyddo ac, o ganlyniad, nid yw rhai datganiadau cenhadaeth wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar. Nid yw rhai ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd â phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig isel, mewn lleoliadau trefol a gwledig, yn gwneud digon i gydnabod amrywiaeth mewn cymdeithas.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

29 Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol[7] a'r arweiniad atodol sy'n cyd-fynd ag ef, yn rhoi sylfaen glir ar gyfer hyrwyddo agweddau ar gyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn diffinio canlyniadau o ran agweddau a gwerthoedd priodol y dylai disgyblion eu caffael mewn gwahanol gyfnodau allweddol. Mae'r fframwaith hwn, er nad yw'n orfodol, yn darparu'r strwythur i lawer o ysgolion gyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae ysgolion unigol yn dilyn gwahanol fodelau ar gyfer cyflwyno ABCh gyda rhai yn defnyddio gwersi ar yr amserlen, tra bo eraill yn defnyddio pynciau'r cwricwlwm neu maent yn cael diwrnodau ABCh pan fyddant yn canolbwyntio ar themâu neu faterion allweddol.

30 Mae'r ysgolion sy'n darparu'r rhaglenni ABCh mwyaf effeithiol ac arloesol yn cysylltu gwaith a addysgir mewn sesiynau ABCh gyda'r broses o hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol yn ehangach ar draws yr ysgol. Yn yr ysgolion sydd fwyaf effeithiol yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol trwy ABCh, mae'r canlynol yn digwydd:

- mae athrawon yn annog cyfranogiad gweithredol mewn gwersi ac maent yn cydnabod amrywiaeth o arddulliau dysgu;

[7] Sylfaen Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cyfnod Allweddol 1 i 4 yng Nghymru (ACCAC, 2000)

- caiff cynnydd disgyblion mewn ABCh ei olrhain a dethlir llwyddiant;
- rhoddir cyfleoedd penodol i ddysgu am gyfrifoldeb cymdeithasol wrth addysgu a dysgu pynciau eraill ar draws y cwricwlwm;
- ceir cysylltiadau da â'r gymuned ehangach, yn ogystal â chysylltiad â mentrau lleol a chenedlaethol;
- mae athrawon wedi ymrwymo i'r rhaglen ac mae'n cynnwys staff ac adnoddau priodol; ac
- mae ABCh yn cael ei chefnogi'n weithredol gan uwch arweinwyr.

31 Mae ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uchel yn aml yn rhoi blaenoriaeth i ABCh am eu bod yn cydnabod ei phwysigrwydd wrth annog ymddygiad ac agweddau gwell tuag at waith. Lle mae gan y ddarpariaeth hon ddiffygion, mae hyn yn aml am nad yw ysgolion wedi blaenoriaethu adnoddau ar gyfer ABCh o ran amser cwricwlwm neu staffio. Nid yw rhaglenni ABCh gwannach yn cysylltu'n dda â gweithgareddau ysgol ehangach ac maent wedi'u trefnu'n wael ac nid yw'r broses o addysgu dinasyddiaeth wedi'i datblygu'n dda.

32 Lle mae darpariaeth ABCh yn dda, mae ysgolion yn aml yn datblygu mentrau sy'n ymateb i anghenion y gymuned leol. Mae un ysgol mewn ardal amddifadedd uchel a lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi datblygu rhaglen ABCh lwyddiannus i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol ac ystyried gwerthoedd personol trwy brosiect aml-asiantaethol a gyflwynir bob blwyddyn i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9. Mae'r rhaglen wythnos yn defnyddio arbenigedd yn yr ysgol ac arbenigedd allanol i gyflwyno unedau ar seicoleg hunan-barch, rhianta llwyddiannus, ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol a chyfrifoldebau cymunedol a chymdeithasol. Mae defnyddio ffilm addysgol wedi'i gynhyrchu yn lleol yn defnyddio actorion o'r ysgol, yn gyfrwng arbennig o rymus wrth herio agweddau disgyblion.

Astudiaeth achos 2: y rhaglen ABCh

Mae un ysgol ddwyieithog yng Ngogledd Cymru yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill trwy gyfres o fentrau cysylltiedig y mae ei egwyddorion craidd yn cynnwys parch at yr unigolyn, cyfranogiad disgyblion ac ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae'r rhaglen ABCh yn cynnig darpariaeth graidd ar gyfer pob disgybl ac fe'i sefydlwyd ar ôl ymgynghori eang â disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'n dibynnu'n fawr ar ddefnyddio myfyrwyr hŷn fel mentoriaid cyfoedion ac asiantaethau allanol ar gyfer mewnbwn arbenigol. Mae proffil uchel i'r rhaglen ABCh yn yr ysgol: caiff ansawdd y ddarpariaeth ei archwilio yn rheolaidd a cheir cysylltiadau eglur â meysydd eraill o'r cwricwlwm. Annog trafodaeth a gwrando yn weithredol ar farn eraill sydd wrth wraidd y rhaglen graidd. Caiff pob uned yn y rhaglen eu dilyn gan ddadleuon bywiog blwyddyn gyfan lle caiff moesau eu harsylwi a gwrandewir ar gyfraniadau mewn distawrwydd parchus. Ategir y rhaglen ABCh gan elusennau tymhorol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, lle ceir synnwyr o berchnogaeth disgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r materion gwaelodol.

33 Mae bron pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio rhaglen Cyswllt Heddlu Tîm Craidd Cymru Gyfan (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg) fel rhan o'u rhaglen ABCh. Mae'r rhaglen, a gyflwynir gan dîm penodedig o swyddogion hyfforddedig, yn cynnwys tair prif thema o fewn y nod trosfwaol o leihau troseddau: addysg camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol. Mae'r rhaglen yn ymdrin â materion mewn ffordd sy'n briodol i wahanol grwpiau oedran a mynegir canlyniadau dysgu clir fel y gwerthoedd a'r agweddau y dylid eu datblygu. Mewn nifer o ysgolion, mae'r rhaglen graidd yn elfen werthfawr yn y rhaglen ABCh. Mae rhai ysgolion wedi datblygu'r rhaglen ymhellach trwy gynnwys y swyddogion yn ehangach yn yr ysgol wrth ymdrin â disgyblion sydd mewn perygl o ddatblygu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r rhaglen yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei chyflwyno fel rhan o gwricwlwm ABCh a gynlluniwyd yn ofalus, ni chaiff ei hystyried yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun ac mae'n ystyried y materion a'r problemau penodol y mae ysgolion unigol yn eu hwynebu. Mewn un ardal, addaswyd y rhaglen i ddelio â'r problemau lleol sylweddol â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau. I ysgolion, mae'r rhaglen yn darparu adnoddau ac arbenigedd ychwanegol gwerthfawr. Gall hefyd hyrwyddo mwy o hyder ymhlith disgyblion yn yr heddlu. Ceir cysylltiadau defnyddiol a chefnogol hefyd â staff o asiantaethau eraill, fel gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd.

34 Nid oes gan rai ysgolion yr isadeiledd a'r drefniadaeth ABCh i gefnogi cyflwyno'r rhaglen yn effeithiol. Roedd y ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer ABCh mewn rhai ysgolion yr ymwelwyd â hwy, yn annigonol. Nid yw'r broses o fonitro ansawdd y ddarpariaeth ABCh ar gyfer disgyblion nad ydynt bellach mewn darpariaeth ysgol brif ffrwd yn ddigon da mewn rhai achosion.

Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Astudiaeth achos 3: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Mae un ysgol mewn ardal o amddifadedd uchel wedi datblygu enw da yn genedlaethol am hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE). Mae'r rhaglen drawsgwricwlaidd sydd wedi'i sefydlu'n dda yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill trwy gyfres o weithgareddau proffil uchel sy'n cael effaith wirioneddol ar eu cymunedau eu hunain a chymunedau eraill. Mae ymrwymiad yr uwch staff at werthoedd ADCDFE yn helpu i sefydlu cefndir ar gyfer gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae defnyddio cyllid allanol wedi cynnig cyfleoedd creadigol a gwreiddiol ar gyfer disgyblion i ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol. Dyma'r prif nodweddion da:

- ystyrir ADCDFE fel hawl disgybl ac archwilir cyfraniad pob pwnc ati;
- datblygu perthynas gynaliadwy â sawl gwlad arall;
- defnyddio TGAU Dinasyddiaeth ac ABCh i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol i bawb;
- cylchlythyrau proffil uchel a chymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol;
- cysylltiad cryf â materion lleol; a
- chyflwyniadau disgyblion i grwpiau ymgynghorol y cabinet.

35 Mae hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae iddo rôl gynyddol arwyddocaol yn y modd y mae ysgolion yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gwendidau yn y ddarpariaeth ar gyfer ADCDFE mewn llawer o ysgolion.

36 Mae hyrwyddo cyfrifoldeb a gwerthoedd cymdeithasol yn nod allweddol mewn ADCDFE. Mae ei brif fwriadau wedi'u hamlinellu mewn dogfen arweiniad cwricwlwm ar gyfer ysgolion o'r enw 'Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang - Pam? Beth? Sut?'[8]. Y prif nod yw datblygu'r wybodaeth, y medrau a'r gwerthoedd ymhlith disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch gwella ansawdd bywyd a hyrwyddo byd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Mae cysyniadau a gwerthoedd allweddol ADCDFE yn cynnwys cyd-ddibyniaeth, dinasyddiaeth a stiwardiaeth, anghenion a hawliau, amrywiaeth, gwerthoedd ac amgyffrediad a datrys gwrthdaro. Mae'r gwerthoedd hyn yn gyfystyr â gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) wedi sefydlu menter ledled y DU o'r enw Galluogi Cymorth Effeithiol (Enabling Effective Support) i roi cymorth i ysgolion am y dimensiwn byd-eang. Yng Nghymru, sefydlwyd naw rhwydwaith rhanbarthol i

[8] Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang - Pam? Beth? Sut? (ACCAC,DFID, Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)

helpu ysgolion i nodi cymorth a lledaenu arfer dda. Mae Galluogi Cymorth Effeithiol yn cynnal cynadleddau cenedlaethol ac mae wedi cynnal arolygon i'r ystod o sefydliadau anllywodraethol sy'n rhoi cymorth i ysgolion a graddau mentrau cysylltu ysgolion. Mae'r mathau o weithgareddau a gefnogir gan un rhwydwaith wedi:

- galluogi athrawon ysgolion arbennig i fynychu cynhadledd yn Llundain;
- cefnogi a chynllunio gweithdy ar gyfer athrawon gwyddoniaeth;
- darparu grant i bedwar athro celfyddydau creadigol weithio gyda'i gilydd; a
- darparu adnoddau i ddwy ysgol uwchradd ddatblygu eu gwaith mewn ADCDFE.

37 Mae un ysgol uwchradd yn datblygu cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 8 ddysgu am ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn eu hardal eu hunain yn ogystal â chysylltiadau â materion byd-eang.

38 Mae llawer o ysgolion yn datblygu ymwybyddiaeth o'r dimensiwn rhyngwladol trwy gynllun Comenius a phrosiect 'Gwreiddiau ac Adenydd' sy'n hyrwyddo partneriaethau rhwng disgyblion, athrawon ac ysgolion ledled Ewrop.

Astudiaeth achos 4: deall diwylliannau eraill

Fel rhan o gynllun Comenius, mae ysgol arbennig mewn ardal drefol ag ynddi amddifadedd uchel iawn wedi defnyddio ADCDFE yn effeithiol i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a medrau ar gyfer byw yn annibynnol dros ddegawd. Er 1992, mae 55 o staff a thros 350 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn taith gyfnewid pythefnos flynyddol gydag ysgol arbennig yn yr Iseldiroedd. Mae'r prosiect yn rhychwantu blwyddyn academaidd a dyma yw'r ffocws ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn ogystal â diwrnodau penodol ar gyfer datblygu medrau allweddol. Mae'r prosiect yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wledydd Ewropeaidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau a'u harfarnu yn drylwyr. Mae'r prosiect hefyd yn helpu i ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ehangach disgyblion gyda'r ffocws ar ddatblygu medrau dysgu unigol. Mae cyfres o weithgareddau yn ystod y daith gyfnewid yn ehangu ymwybyddiaeth gymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol disgyblion.

Arloesedd cwricwlwm

39 Mae llawer o ysgolion ledled Cymru yn datblygu dulliau arloesol o ran y cwricwlwm sy'n helpu i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Mae llawer o ysgolion bellach yn darparu ystod o gyrsiau a chymwysterau sy'n sicrhau diddordeb ac ymroddiad dysgwyr ac maent yn llwyddo mewn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol.

40 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio rhaglenni sy'n arwain at gymhwyster fel rhan o'u rhaglenni ABCh, yn enwedig gyda disgyblion llai abl neu'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu dadrithio[9]. Mae sawl ysgol wedi datblygu modelau arloesol ar gyfer cyflwyno ABCh yng nghyfnod allweddol 4 sy'n ystyried gwahanol arddulliau dysgu. Caiff rhai

[9] Cymwysterau Cyfredol a'r Fenter Llwybrau Dysgu 14-19 (Estyn, 2006)

ysgolion eu cefnogi'n dda gan ymgynghorwyr ABCh awdurdod lleol wrth ddatblygu deunyddiau a dulliau newydd a pherthnasol. Mae rhai ysgolion yn olrhain cynnydd mewn ABCh yn effeithiol iawn ac maent yn gosod targedau ar gyfer gweithgaredd pellach. Mae hon yn nodwedd gref mewn llawer o ysgolion arbennig.

41 Mae nifer y disgyblion sy'n sefyll y cwrs byr TGAU mewn astudiaethau crefyddol ledled Cymru wedi codi'n sylweddol. Mae cyfanswm yr ymgeiswyr wedi codi o 38,000 yn 2005 i dros 47,000 yn 2006 sydd dros 70% o gyfanswm yr ymgeiswyr cwrs byr. Mae tua 60% yn llwyddo i ennill graddau A-C ac mae hyn yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o faterion moesol, cymdeithasol a moesegol mewn cymdeithas.

42 Mae sawl cwrs galwedigaethol fel 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' a 'Datblygiad Plant' yn cynnwys meysydd penodol lle caiff syniadau am gyfrifoldeb cymdeithasol eu haddysgu a'u hasesu. Mae nifer fach o ysgolion yng Nghymru yn cofrestru disgyblion ar gyfer y Diploma Cenedlaethol cyntaf BTEC mewn gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i anelu yn bennaf at y rheiny sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd yn y gwasanaethau cyhoeddus â gwisg. Mae'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) yn cynnig nifer o gyrsiau sydd hefyd yn helpu i ddatblygu medrau bywyd a chyfrifoldeb cymdeithasol.

43 Mae rhai ysgolion wedi defnyddio TGAU Dinasyddiaeth yn effeithiol fel modd o ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gyfrifoldeb cymdeithasol. Mae CBAC hefyd wedi datblygu cwrs byr ABCh TGAU ac mae rhai ysgolion yn ei ystyried yn ffordd effeithiol o hyrwyddo agweddau ar gyfrifoldeb cymdeithasol ac mae'n gofyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn prosiect dinasyddiaeth weithgar. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnig y cwrs hwn ac roedd canlyniadau ar gyfer y cwrs ABCh ar gyfer carfan fechan iawn yn 2006 yn wael.

44 Mae nifer fach o ddisgyblion yn ennill cymwysterau lefel mynediad fel Medrau Bywyd a Thystysgrif ar gyfer Medrau Personol a Chymdeithasol bob blwyddyn. Mae Tystysgrif Effeithiolrwydd Personol Dyfarniadau Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Dyfarnu (ASDAN) yn darparu fframwaith da ar gyfer achredu medrau personol a chymdeithasol ar dair lefel wahanol. Trwy Ymddiriedolaeth y Tywysog, mae 60 o ganolfannau yn cynnig dyfarniadau XL a achredir gan ASDAN y mae dinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth gymunedol yn rhan o gynllun y cwrs. Mewn nifer gynyddol o leoliadau, mae'r mathau hyn o gymwysterau yn cymell dysgwyr. Mae llawer o raglenni arloesol mewn ysgolion ar gyfer disgyblion nad ydynt yn dilyn y cwricwlwm prif ffrwd yn yr ysgol. Nid yw ysgolion bob amser yn ystyried sut gallai'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer y grwpiau hyn hefyd fod yn werthfawr ar gyfer adrannau eraill o'r boblogaeth ysgol.

45 Arbrofwyd â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch a chanolradd mewn canolfannau ledled Cymru am y tair blynedd diwethaf ac mae'n cynnig cyfleoedd da ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Fel rhan o'r cwrs hwn, mae myfyrwyr yn cwblhau cyfnod o gyfranogiad cymunedol, ac maent yn cymryd rhan mewn profiad gwaith. Cafwyd llawer o enghreifftiau da o brosiectau cyfranogol ac mae myfyrwyr ac

athrawon yn cofnodi lefelau uchel o foddhad â'r agweddau hyn ar y cwrs. Mae enghreifftiau o brosiectau cyfranogol llwyddiannus yn cynnwys:

- cynhyrchu fideos am hanes personol y bobl mewn cartref preswyl;
- arwain gweithgareddau chwaraeon cymunedol mewn clybiau lleol;
- prosiectau cymorth a mentora cyfoedion;
- prosiectau adfywio rhandiroedd;
- gweithio mewn ysgolion cynradd a chartrefi gofal; a
- myfyrwyr yn gweithio fel cyfieithwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

46 Yn ogystal, mae myfyrwyr yn dilyn cwrs ABCh orfodol sydd, yn yr arfer orau, yn cynnig profiadau ysgogol a heriol. Mae uned graidd Cymru, Ewrop a'r Byd yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion gwleidyddol a chymdeithasol cyfoes yng Nghymru a thu hwnt. Mae ehangu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i lefel sylfaen yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ysgolion ddatblygu darpariaeth ar gyfer hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol i adrannau ehangach o'r ysgol.

47 Mae ysgolion sydd â Chwricwlwm Cymreig wedi'i sefydlu'n dda yn aml yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill yn dda. Pan gaiff ei gyflwyno yn dda, mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cryfhau ac yn ategu'r gwaith a wnaed trwy'r agwedd gymunedol a chymdeithasol ar y fframwaith ABCh a chaiff effaith ar ystod eang o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg i hyrwyddo ieithoedd a diwylliant Cymru yn ddigonol yn unig mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd yn 2005-2006.

48 Gall sefydlu Rhwydweithiau 14-19 effeithiol wneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill. Mewn un ardal lle mae trefniant consortiwm rhwng ysgolion a cholegau wedi'i sefydlu'n dda, un o fanteision annisgwyl myfyrwyr yn teithio rhwng safleoedd i gael mynediad at ddewis ehangach o bynciau oedd integreiddio cynyddol y bobl ifanc o wahanol ysgolion fel cymuned y cymoedd. Yn fwy cyffredinol, nid yw'r rhwydweithiau hyn wedi'u sefydlu'n dda ledled Cymru.

Astudiaeth achos 5: datblygu effeithiolrwydd personol a chyfrifoldeb cymunedol

Mae gan ysgol gyfun fawr wledig raglen sefydledig ar gyfer disgyblion sydd o bosibl wedi'u dadrithio yng nghyfnod allweddol 4 sy'n helpu disgyblion i ddatblygu synnwyr o gyfrifoldeb personol a chymunedol. Ceir strwythur cefnogol ar gyfer disgyblion ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Ym Mlwyddyn 10, mae disgyblion yn dilyn llai o gyrsiau TGAU neu gyrsiau galwedigaethol a gyflwynir yn yr ysgol, ac mae deuddydd yr wythnos o weithgareddau i ddatblygu adeiladu tîm a synnwyr o falchder grŵp a balchder personol, yn cyd-fynd â hyn. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys ymweliadau ag ystod o wasanaethau cyhoeddus, prosiectau amgylcheddol cymunedol estynedig, dosbarthiadau hunanamddiffyn, cymorth cyntaf, a gwaith gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog ac i rai, cymryd rhan yng ngwobr Dug Caeredin.

Caiff y disgyblion eu cefnogi gan gydlynydd medrau dysgu gyda ffocws penodol ar ddatblygu medrau allweddol a darperir achredu ychwanegol trwy dystysgrif dyfarniad effeithiolrwydd personol ASDAN.

Ym Mlwyddyn 11, mae disgyblion yn symud i ystod o ddarparwyr hyfforddiant y tu allan i'r ysgol i ddysgu gweithio gydag eraill mewn amgylcheddau newydd. Mae gan y grŵp broffil uchel yn yr ysgol a dethlir ei waith mewn cyfres o wasanaethau grŵp-blwyddyn ac mae'r grŵp yn defnyddio'u medrau i wella'r ysgol a'r amgylchedd lleol. Mae'r disgyblion yn y grŵp wedi dangos ymddygiad a phresenoldeb gwell ac mae'r rhaglen yn cael cefnogaeth gref rhieni a phartneriaid eraill. Mae'r rhaglen yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r coleg lleol.

Cynlluniau gwobr

49 Mae ysgolion yng Nghymru yn defnyddio cynlluniau gwobrau yn greadigol i helpu disgyblion i ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill er bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath yn gymharol isel. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau hyn yn aml yn cymell unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn fawr ac maent yn effeithiol wrth ddatblygu hunanhyder a medrau allweddol. Mae rhai ysgolion yn annog gwirfoddoli a chyfranogiad mewn prosiectau cymunedol lleol er nad yw hyn yn helaeth yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg hwn. Nid yw pob ysgol yn ymwybodol o'r cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion trwy gynlluniau gwobr.

50 Mae nifer fach o ysgolion yng Nghymru yn ymwneud â gwobrau Impetus sy'n cael eu hariannu a'u gweinyddu gan y Sefydliad Moeseg Fyd-Eang gyda chymorth gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru. Nod y prosiect yw helpu disgyblion i archwilio gwerthoedd a rennir ac yna rhoi'r rhain ar waith yn ymarferol mewn lleoliad lleol neu ryngwladol. Mae disgyblion yn gweithio gyda phanel o wirfoddolwyr lleol i ddatblygu eu prosiect i'r safon sy'n ofynnol i ennill y wobr. Cyflwynir gwobrau mewn cynhadledd genedlaethol ac mae prosiectau diweddar wedi cynnwys:

- adnewyddu gorsaf reilffordd a gafodd ei difrodi gan fandaliaid;
- sefydlu system mentora gwrth-fwlio;

- gwaith amgylcheddol yn Belarus gan grŵp o ddisgyblion oedd wedi'u dadrithio;
- ffurfio deunyddiau gwrth-ysmygu ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd; a
- gwaith amgylcheddol a chymunedol gan ysgol arbennig yng Ngogledd Cymru.

51 Mae un awdurdod lleol yn defnyddio'r wobr i helpu i gymell pobl ifanc y nododd ysgolion neu eraill eu bod mewn perygl o ddatblygu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r myfyrwyr hyn wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn prosiectau ar thema ymwybyddiaeth o D-Day a datblygu gardd ysbyty.

52 Caiff cynllun gwobr Dug Caeredin ei ddefnyddio gan lawer o ddarparwyr i roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill trwy elfennau gwasanaeth, medrau ac alldaith y wobr. Mae nifer dda yn cymryd rhan yng ngwobr Dug Caeredin mewn rhai ardaloedd, ond mae'n llai poblogaidd yn yr ardaloedd Cymraeg yng Nghymru. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ryddfraint i weithredu'r wobr. Mae gan bron bob awdurdod lleol swyddog datblygu penodedig i weinyddu'r wobr a swyddog gwobrau fel ffigur cyhoeddus. Yn 2004-2005, roedd 9,600 o bobl ifanc ledled Cymru yn cymryd rhan ar wahanol lefelau mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae'r wobr wedi cael dylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc yn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg hwn. Er bod y wobr wedi'i sefydlu'n dda mewn llawer o leoliadau ysgol traddodiadol, mae hefyd wedi bod yn effeithiol yn cymell mwy o grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid mewn un AALl yn defnyddio'r wobr ar gyfer disgyblion sydd ag ymddygiad troseddol ac mae un AALl yn defnyddio tîm gwaith ieuenctid ar wahân i gynnwys pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio na fyddent fel arfer yn cael mynediad at y wobr mewn lleoliadau ysgol confensiynol. Mae un ysgol yn defnyddio'r wobr i ymestyn cyfleoedd yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4.

Codi ymwybyddiaeth am ddemocratiaeth

53 Mae nifer gynyddol o ysgolion ac awdurdodau lleol yn datblygu mentrau i godi ymwybyddiaeth disgyblion am brosesau democrataidd. Mae cynghorau ysgol wedi'u sefydlu'n dda mewn llawer o ysgolion uwchradd ac mae mentrau cenedlaethol fel Y Ddraig Ffynci[10] yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at godi ymwybyddiaeth disgyblion am y broses ddemocrataidd. Mae gan lawer o ysgolion berthynas gynhyrchiol â gwleidyddion lleol a chenedlaethol sy'n ymweld i siarad â disgyblion. Caiff rhai ysgolion ffug etholiadau sy'n cael eu cynnal ochr yn ochr ag etholiadau cenedlaethol. Mewn un awdurdod lleol gwledig, ymwelodd cynrychiolwyr cyngor yr ysgol â phrif siambr y cyngor ac annerch aelodau ar faterion cyfredol yn eu hysgolion.

54 Mae un ysgol wedi datblygu holiaduron ar-lein i ymgynghori â disgyblion am faterion ysgol gyfan. Mae ysgol arall yr ymwelwyd â hi wedi cynnal diwrnodau dinasyddiaeth. Mewn un awdurdod lleol, bu cynghorwyr yn siarad ag ysgolion ac yn ateb cwestiynau disgyblion ar-lein cyn cynnal sioe math realiti 'pleidleisio i ffwrdd'. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ceisio cynnwys disgyblion yn weithredol yn y broses ddemocrataidd trwy fforymau ieuenctid, cynadleddau cyngor ysgol a mecanweithiau

[10] www.funkydragon.org

ymgynghorol eraill. Mae gan un awdurdod lleol gydlynydd democratiaeth ieuenctid a maer a maeres ieuenctid.

55 Mae'r Cyngor er Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd (CEWC) wedi gweithio gyda thros 100 o ysgolion uwchradd ac 20 awdurdod lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth weithredol mewn cyd-destun lleol a byd-eang. Mae'r cyngor yn trefnu trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol, cynadleddau, hyfforddiant mewn swydd ac adnoddau i hyrwyddo'r broses o addysgu dinasyddiaeth mewn ysgolion.

56 Mae sawl ysgol wedi cymryd rhan yn y prosiect 'Dweud Eich Dweud' yn 2005, a ariennir gan y Comisiwn Etholiadol fel rhan o'r rhaglen medrau ar gyfer democratiaeth. Yn yr ysgolion lle cynigir y rhaglenni fel rhan o ddull ehangach o hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, roedd mantais gadarnhaol i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan.

57 Fodd bynnag, nid yw addysgu'r agwedd hon ar ddinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth disgyblion am y broses ddemocrataidd wedi'u datblygu digon mewn llawer o ysgolion.

Cyfranogiad effeithiol

58 Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn chwilio am ffyrdd o ddarparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu cynnwys hwy wrth wneud dewisiadau gwybodus am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae cynghorau ysgol yn orfodol ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn gyffredinol yn cefnogi ysgolion yn dda wrth sefydlu a chynnal y rhain yn effeithiol. Trwy gynghorau ysgol, mae llawer o bobl ifanc yn datblygu'r medrau sydd eu hangen i fod yn aelodau effeithiol o'r gymdeithas yn ogystal â rhoi'r synnwyr i'r gymuned ysgol ehangach bod llais y disgyblion yn cyfrif, ac o berchnogaeth ar y cyd.

59 Mae cyfranogiad cynyddol ac ystyrlon disgyblion yn nodwedd ar lawer o ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn yr arolwg. Mae awdurdodau lleol wedi ymgynghori â phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd dros eu cynlluniau addysg unigol ac mae un wedi defnyddio sefydliad allanol i hwyluso'r ymgynghori hwn yn fwy effeithiol. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn gweithredu cynghorau ysgol yn effeithiol ac mae ymgynghori â disgyblion yn gyfyngedig iawn.

60 Mae ysgolion yn cynnig mathau eraill o gyfranogiad ar gyfer disgyblion trwy eco-bwyllgorau, grwpiau elusen, cynlluniau mentora cyfoedion ar gyfer llythrennedd, rhifedd, addysg rhyw ac ymddygiad. Mae llawer o ysgolion yn ystyried bod cymryd rhan mewn timau chwaraeon, digwyddiadau cerddorol, drama, gwyliau ac eisteddfodau yn bwysig iawn wrth hyrwyddo parch at eraill a chyfrifoldeb cymdeithasol ehangach. Mae codi arian at elusennau yn gryf iawn mewn llawer o ysgolion yng Nghymru ac mae rhai ysgolion yn ffurfio perthynas gynaliadwy ag achosion penodol. Mae gan un ysgol mewn ardal wledig gysylltiadau cryf iawn ag Uganda ac mae'n cynnwys staff a disgyblion ar ymweliadau o'r ddwy ochr. Mae'r ysgol wedi cefnogi ysgolion cysylltiedig mewn ffyrdd ymarferol ac effeithiol fel cyfrannu gwerslyfrau ac offer ac mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cymryd rhan ac yn perchnogi'r gwaith yn bersonol.

61 Mae'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (PESS) wedi gwneud llawer i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol trwy chwaraeon. Diben allweddol y 63 o ganolfannau datblygu PESS yng Nghymru yw nodi, cryfhau a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol. Un fantais oedd y cynnydd amlwg yn hyder a hunan-barch llawer o'r disgyblion a oedd yn cymryd rhan. Mae llawer yn rhoi'r hunanddisgyblaeth a ddysgwyd mewn chwaraeon ar waith gyda'u hymddygiad yn yr ysgol. Mae hyn wedi rhoi synnwyr o ddiben i lawer o ddisgyblion a oedd wedi ymddieithrio ac mae eu hagweddau at yr ysgol a phobl eraill wedi gwella o ganlyniad. Cryfhawyd cysylltiadau â chanolfannau hamdden lleol ac mae'r berthynas rhwng canolfannau a disgyblion lleol wedi gwella. Mae plant yn gwneud defnydd cynyddol o'r canolfannau yn annibynnol y tu allan i oriau ysgol ac maent yn annog eu rhieni i ddefnyddio'r cyfleusterau hefyd.

62 Mae cynlluniau mentora cyfoedion yn cael dylanwad cadarnhaol wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol. Mae un cynllun – pŵer a dealltwriaeth ychwanegol mewn addysg rhyw (APAUSE) – yn cynnwys disgyblion hŷn yn hyfforddi mewn medrau mentora i helpu i gyflwyno addysg rhyw a pherthynas i ddisgyblion iau. Mae'r ysgolion sy'n gweithredu'r rhaglen yn adrodd bod canlyniadau cadarnhaol o ran disgyblion iau wrth gaffael dealltwriaeth a gwybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus ac wrth wella medrau'r rhai sy'n eu cyflwyno. Mae cynlluniau mentora i helpu gydag anawsterau llythrennedd, bwlio ac ymddygiadol wedi'u sefydlu'n dda ar draws ysgolion yng Nghymru ac mae llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth ddechrau a chefnogi'r rhaglenni hyn. Mewn un ysgol, mae myfyrwyr Blwyddyn 12 wedi cael hyfforddiant i'w helpu i gefnogi disgyblion Blwyddyn 11 a'u teuluoedd wrth baratoi ar gyfer arholiadau TGAU.

63 Mae cynlluniau mentora cyfoedion fel y rhain yn cynnwys disgyblion hŷn mewn arddangos ymddygiad cefnogol sy'n rhoi enghreifftiau o gymorth cadarnhaol yng nghymuned yr ysgol. Yn ogystal â helpu i wella medrau, mae hefyd yn dangos manteision cydweithredu a chydymddibyniaeth.

Astudiaeth achos 6: mentoriaid cyfoedion

Mae un ysgol wedi datblygu cynllun mentora cyfoedion mewn partneriaeth â'r ysgol arbennig leol. Mae hyn yn cynnig y cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mentora eu hunain ac ymrwymo i eraill. Trwy'r cynllun hwn, mae 20 o ddisgyblion wedi cael eu hyfforddi mewn medrau mentora cyfoedion sy'n arwain at gymhwyster. Mae gan bob mentor ddisgybl i'w fentora gyda'r nod o helpu'r disgybl hwnnw i ddatblygu medrau byw yn annibynnol. Mae'r rhaglen yn gofyn am ymrwymiad dros nifer o fisoedd ac fe'i cefnogir gan 'fenter addysg a diwylliant Leonardo da Vinci'. Mae'r disgyblion hŷn bellach yn helpu i hyfforddi eraill mewn medrau mentora yn eu hysgol eu hunain.

64 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn cynnig cyfleoedd ehangach i ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol trwy ddatblygu medrau arweinyddiaeth. Mae'r corff swyddogion yn nodwedd gadarnhaol mewn llawer o ysgolion, gyda llawer o fyfyrwyr yn cael hyfforddiant mewn medrau cynghori a mentora cyn ymgymryd â'u rolau. Caiff swyddogion eu hethol weithiau gan eu cyfoedion neu rhaid iddynt wneud cais am eu swyddi mewn un ysgol. Mae un ysgol yn defnyddio cwrs preswyl i ddatblygu'r medrau hyn. Caiff arweinyddiaeth yn aml ei dosbarthu'n eang ar draws y grwpiau blwyddyn trwy fentora cyfoedion neu gysylltiad cymunedol. Mewn rhai ysgolion, mae

swyddogion yn cyflawni swyddogaeth bwysig fel modelau rôl cadarnhaol ac maent yn cynrychioli'r gwahanol grwpiau yn yr ysgol.

Astudiaeth Achos 7: trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i 3

Mae llawer o ysgolion yn datblygu systemau llawer gwell ar gyfer rheoli'r broses o drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Un o effeithiau hyn oedd hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol yn effeithiol wrth gynnwys disgyblion hŷn fel mentoriaid i ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn gweithgareddau pontio. Mewn un ardal, mae'r ysgol uwchradd wedi sefydlu cyngor ysgol pontio. Mewn ysgol arall, mae disgyblion yn gweithredu desg-gymorth ar gyfer disgyblion iau yn ystod wythnosau cyntaf y tymor. Mewn un ysgol 11-16, mae swyddogion Blwyddyn 11 yn gwneud cyflwyniad clyweled i rieni disgyblion Blwyddyn 6. Mae'r cynlluniau hyn yn arbennig o effeithiol fel dull o hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch pan fyddant yn rhan o fecanweithiau ehangach o ran mentora cyfoedion a chymorth ar draws blwyddyn yn yr ysgol. Mewn un ysgol yng nghanolbarth Cymru, caiff disgyblion Blwyddyn 6 raglen sefydlu deuddydd, lle caiff yr ail ddiwrnod ei neilltuo i garwsél o weithgareddau grŵp gyda disgyblion Blwyddyn 7 sy'n gofyn bod disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i gael canlyniad penodol. Mae disgyblion yn gweithio ar destunau fel ecoleg, ofnau a phryderon, trefniadaeth bersonol a gofalu amdanoch eich hun. Caiff medrau gweithio gyda'ch gilydd eu trafod a'u hadrodd yn eglur. Mae cynghorwyr hyfforddedig yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i fonitro grwpiau a dilyn disgyblion unigol sydd â gofidiau o bosibl. Trwy'r ymarfer hwn, caiff disgyblion eu cyflwyno i werthoedd ac ethos yr ysgol y byddant yn trosglwyddo iddi.

Cysylltiadau cymunedol

Astudiaeth achos 8: partneriaethau

Mae un ysgol sy'n gwasanaethu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu partneriaethau effeithiol gydag ystod o grwpiau lleol. Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol wrth sicrhau cyllid eang o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer nifer o brosiectau sydd wedi helpu i ddatblygu perthynas â'r gymuned. Mabwyisadywd dull o nodi partneriaethau gwerth chweil gyda darparwyr yn y gymdogaeth a hwyluso mynediad disgyblion at y cynlluniau hyn. Mae'r partneriaethau yn cynnwys ystod eang o asiantaethau gwirfoddol a statudol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn hefyd â'r gwasanaeth ieuenctid ac mae ganddi ddau weithiwr ieuenctid ymhlith y staff yn ogystal â pherthynas agos â gweithwyr ieuenctid yn y gymuned. Mae'r ysgol yn cyflogi gweithwyr ieuenctid mewn pum canolfan leol i ddarparu ystod o weithgareddau y tu allan i oriau. Mae hyn yn helpu i ddarparu parhad o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr ysgol ac roedd yn golygu bod mwy o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned a grwpiau cymunedol cynrychioliadol fel partneriaethau cymunedau yn gyntaf, fforymau ieuenctid a grwpiau diogelwch ar y ffordd. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi menter awdurdod addysg lleol ehangach ar gyfer ymyriadau cydlynus â theuluoedd i hyrwyddo agweddau cymdeithasol ac addysgol cadarnhaol.

65 Mae llawer o ysgolion yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol trwy ddatblygu cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae ysgolion â phroffil ethnig amrywiol yn aml yn meithrin cysylltiadau effeithiol iawn gyda'r gymuned ac mae staff yn deall sut i

ddatblygu cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill mewn cyd-destun amlddiwylliannol. Mewn darpariaeth felly, mae staff yn ymdrin yn dda â materion hiliol a chyfle cyfartal. Mae awdurdodau lleol yn aml yn cefnogi'r ysgolion hyn yn dda. Mae gan un awdurdod lleol Wobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyflawniad sy'n pennu meini prawf clir i hyrwyddo arfer orau. Mae awdurdod lleol arall yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o amrywiaeth ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr. Mae awdurdod yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn hyrwyddo parch at ddiwylliannau eraill trwy ŵyl bob dwy flynedd sy'n dathlu amrywiaeth grefyddol, ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Caiff llawer o ysgolion fynediad at gymorth gan Grŵp Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd neu sefydliadau tebyg. Mae rhai awdurdodau lleol wedi darparu ychydig iawn o hyfforddiant ar gyfer ysgolion yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac o ganlyniad, mae amrywioldeb yn yr agwedd hon ar ddarpariaeth ysgolion yn yr ardaloedd hyn.

66 Mae rhai ysgolion wedi gallu cael mynediad at Cymorth (y gronfa cefnogi plant a phobl ifanc) ac maent wedi sefydlu prosiectau o dan y thema grymuso, cyfranogiad a dinasyddiaeth weithgar.

67 Caiff llawer o ysgolion arian ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol sy'n agor am oriau estynedig sy'n hyrwyddo cyfranogiad. Mewn tua phedair o bob 10 ysgol a arolygwyd yn 2005-2006, mae nodweddion rhagorol i'r partneriaethau â darparwyr a chyfranogion eraill. Ceir llawer o enghreifftiau o gysylltiadau da â phrifysgolion lleol, ysgolion cynradd, cymunedau ffydd lleol, busnesau lleol, ysgolion arbennig a chartrefi gofal er nad yw ysgolion bob amser yn sicrhau bod digon o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

68 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod nad yw gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill yn amlwg yn y cymunedau ehangach y maent yn eu gwasanaethu. Caiff nifer fach o ysgolion eu hamgyffred yn negyddol yn eu cymunedau. Mae llawer o ysgolion yn cydnabod yr angen i herio agweddau negyddol trwy ymgysylltiad cadarnhaol â'r gymuned.

Casgliad

69 Mae sawl menter genedlaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cyfeiriad gwerthfawr at raglenni gwaith a gweithgareddau sy'n cefnogi hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill mewn ysgolion. O ganlyniad, mae ysgolion ledled Cymru wedi meithrin partneriaethau ag asiantaethau eraill i gyflwyno cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu synnwyr o werth a rhoi iddynt y gwerthoedd a'r hyder a fydd yn eu galluogi i lunio'u barnau eu hunain.

70 Serch hynny, weithiau nid oes ffocws na chydlyniad yn y gwaith. Mae'r ansawdd yn dameidiog mewn ysgolion lle nad yw addysg gwerthoedd yn flaenoriaeth a lle nad yw awdurdodau lleol yn cynnig arweinyddiaeth a chymorth cyson. Ychydig iawn o ysgolion sydd â gweledigaeth gynhwysfawr o'r nodau a'r amcanion sy'n cynnwys yr holl fentrau cyfrannol sy'n llywio'r maes cyfrifoldeb hwn.